Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Cynllun Ariannu Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol

2018 i 2019

Cynnwys

1. Diben y ddogfen hon
2. Cefndir a cyflwyniad
3. Cynsail cyfreithiol ac atebolrwydd
4. Egwyddorion ag amodau'r cynllun
5. Cymhwysedd
6. Anghymhwystra
7. Y Broses o ddyrannu a chyllido'r rhaglen DAPP
8. Dyddiadau a dulliau talu
9. Newid amgylchiadau
10. Adennill cyllid Gofal Cymdeithasol Cymru
11. Deddf Diogelu Data
12. Cwynion
13. Monitro ac adolygu

Atodiadau

Atodiad 1 - Amserlen y cynllun DAPP ar gyfer 2018 i 2019

Atodiad 2 - Dyrannu'r 100 o lefydd DAPP a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru

Atodiad 3 - Templed cynnydd gweithwyr cymdeithasol

Atodiad 4 – Prisiau llefydd ychwanegol ar y rhaglenni DAPP

1 Diben y ddogfen hon

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinelli manylion y cynllun dysgu ac addysg proffesiynol parhaus (cynllun)

1.2 Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu i hwyluso mynediad i'r rhaglenni Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) canlynol:

1.2.1 Rhaglen Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol (YPGC);
1.2.2 Rhaglen Uwch Ymarfer mewn Gwaith Cymdeithasol (UYGC);
1.2.3 Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol (GCY).

1.3 Mae'r ddogfen hon ar gyfer cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol cymwys ar hyd a lled Cymru a dylid ddarllen y ddogfen ar y cyd a "Cytundeb Cynllun Ariannu Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol".

1.4 Noda'r ddogfen hon y rheolau a chanllawiau perthnasol i'r cynllun a'r broses ar gyfer rheoli llefydd ar y rhaglen DAPP a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru a llefydd ychwanegol a ariennir gan gyflogwyr.

2 Cefndir a cyflwyniad

2.1 Datblygwyd y Fframwaith DAPP ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gan Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o roi'r llwybr gyrfa cenedlaethol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru ar waith.

2.2 Nodau cyffredinol y Fframwaith DAPP yw:-

- gwella safon ymarfer gwaith cymdeithasol;
- hybu diwylliant dysgu cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- chynorthwyo gyda'r broses o recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr cymdeithasol profiadol yng Nghymru.

2.3 Bwriad y Fframwaith DAPP yw helpu gweithwyr cymdeithasol hefyd i ddarparu gwasanaethau a arweinir gan ddinasyddion fel y nodir yng ngweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

2.4 Mae'r Fframwaith DAPP yn cynnwys y pedair rhaglen ganlynol:

2.4.1 Y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso;

2.4.2 Rhaglen Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol (YPGC);

2.4.3 Rhaglen Uwch Ymarfer mewn Gwaith Cymdeithasol (UYGC);

2.4.4 Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol (GCY).

2.5 Gellir dod o hyd i ddisgrifiad o bob rhaglen drwy glicio ar y ddolen ganlynol www.cpel.ac.uk/cy/

2.6 Nod y cynllun hwn yw hwyluso mynediad i'r rhaglenni:

- YPGC, UYGC a'r rhaglen GCY o fis Medi 2018

2.7 Gellir gweld amserlen y cynllun ar gyfer 2018 i 2019 yn Atodiad 1.

2.8 Cynghrair o bedwar prif ysgol (Caerdydd, Abertawe, Glyndwr a Bangor) bydd yn darparu'r rhaglenni hyn.

2.9 Bydd dyraniad o hyd at 100 o lefydd ar y rhaglen DAPP a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael bob blwyddyn.

2.10 Bydd llefydd rhaglen DAPP ychwanegol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n cwrdd a meini prawf cymhwyso'r Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael i gyflogwyr hefyd. Rhaid i'r cyflogwyr ariannu'r llefydd ychwannegol hyn eu hunain drwy Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd yn gweinyddu'r taliadau.

2.11 Nodwch - Bydd gallu Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu'r 100 o lefydd dyranedig yn dibynnu ar barhad y cymorth ariannol a ddaw i goffrau Gofal Cymdeithasol Cymru gan Lywodraeth Cymru.

2.12 Gweler adran 7 am mwy o wybodaeth am y broses o ddyrannu'r llefydd ar y Rhaglen DAPP.

3 Cynsail cyfreithiol ac atebolrwydd

3.1 Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun DAPP wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i Gofal Cymdeithasol Cymru ar sail grant.

3.2 Cyflwynir y pŵer i ddarparu grantiau o'r fath i'r Llywodraeth drwy adran 67(4) Deddf Safonau Gofal 2000. Dirprwywyd y pwerau hyn i'r Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Rhagfyr 2001 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.3 Bydd y cynllun yn cael ei reoli a'i ddatblygu yn Fframwaith Atebolrwydd Ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Fframwaith Atebolrwydd a nodir yn y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth.

3.4 Bydd y cynllun yn cael ei fonitro gan Gofal Cymdeithasol Cymru fel rhan o'i drefniadau llywodraethu, archwilio a monitro arferol. Bydd effeithiolrwydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso.

3.5 Bydd y cynllun hefyd yn cael ei archwilio a monitor gan Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o bryd yw gilydd.

3.6 Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob chwe blynedd neu'n amlach fel y bo'n briodol, gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.7 Bydd penderfyniadau ac amrywiadau gweithredol mewn perthynas â'r cynllun yn cael eu gwneud gan Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.8 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw'r hawl i newid amserlen, strwythyr a cynnwys y cynllun o bryd yw gilydd.

3.9 Bydd y symiau sy'n daladwy dan y cynllun yn cael eu hadolygu a'u diwygio o bryd i'w gilydd lle y bo'n briodol.

4 Egwyddorion ac amodau'r cynllun

4.1. Gofal Cymdeithasol Cymru

4.1.1. Nod y cynllun yw sicrhau bod llefydd ar y rhaglen DAPP yn adlewyrchu'r sector gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

4.1.2. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu cyllid ar gyfer 100 o lefydd ar y rhaglen DAPP bob blwyddyn.

4.1.3 Bydd y 100 o lefydd a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael eu dyrannu fel arfer mewn perthynas â gweithwyr cymdeithasol sy'n dilyn rhaglenni YPGC, UYGC neu GCY llawn.

4.1.4 Diffinnir lle ar raglen DAPP fel 60 o gredydau wedi'u rhannu rhwng nifer o fodiwlau.

4.1.5 Os yw cyflogwyr am rannu eu dyraniad o lefydd a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru rhwng nifer o ddysgwyr, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod o leiaf un dysgwr yn cael ei ddyrannu i bob un o'r modiwlau sy'n cyfateb i le llawn ar y rhaglen.

4.1.6 Yn yr achosion lle nad yw cyflogwyr yn defnyddio unrhyw un o'r llefydd llawn hyn, dyrennir llefydd dros ben mewn modd hyblyg ac at ddisgresiwn Gofal Cymdeithasol Cymru.

4.1.7 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoli'r ffioedd ar gyfer y llefydd ychwanegol a ariennir gan gyflogwyr. Gall cyflogwyr brynu llefydd llawn ychwanegol, cyfuniad o fodiwlau neu fodiwlau unigol.

4.2 Cyflogwyr

4.2.1 Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod y gweithwyr cymdeithasol sy'n cymryd rhan yn cael amser digonol a mynediad i adnoddau perthnasol.

4.2.2 Rhaid i gyflogwyr ymrwymo i ryddhau gweithwyr cymdeithasol sy'n cymryd rhan i fynychu cyrsiau/darlithoedd/cyfarfodydd wyneb yn wyneb y rhaglen yn ôl y gofyn.

4.2.3 Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod y gweithwyr cymdeithasol sy'n cymryd rhan yn cael cefnogaeth lawn gan eu rheolwyr llinell neu pennaeth adran.

4.2.4 Bydd cyflogwyr sy'n ariannu gweithwyr cymdeithasol sy'n dilyn cyrsiau YPGC, UYGC neu GCY yn gallu dewis a ydynt am ryddhau staff i wneud:

(i) y rhaglenni YPGC, UYGC neu GCY llawn; neu
(ii) modiwlau YPGC, UYGC neu GCY penodol.

4.3 Y Gynghrair

4.3.1 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn cadarnhad gan y gynghrair ynghylch y gweithwyr cymdeithasol sy'n dilyn y rhaglenni DAPP, gan gynnwys eu henwau, y rhaglen neu'r modiwlau a ddilynir yn ogystal â'u cynnydd (bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi i Gofal Cymdeithasol Cymru yn y lle cyntaf gan y cyflogwyr).

4.3.2 Bydd rhaid i'r Gynghrair hysbysu'r Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr perthnasol am unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r gweithwyr cymdeithasol sy'n cymryd rhan gan gynnwys unrhyw achosion o ohirio astudiaethau, eu hatal dros dro neu adael y cwrs.

4.3.3 Bydd rhaid i'r Gynghrair rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gofal Cymdeithasol Cymru ac i gyflogwyr perthnasol am y dyfarniadau a roddir i weithwyr cymdeithasol wrth iddynt gwblhau'r rhaglenni a / neu'r modiwlau.

5 Cymhwysedd ac amodau'r cynllun

5.1 Mae'n rhaid weithiwyr cymdeithasol a ariannir gan Gofal Cymdeithasol Cymrun eu gan eu cyflogwyr sy'n dilyn unrhyw elfennau o raglenni DAPP gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a gweithio yng Nghymru.

5.2 Rhaid i weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd yn 2012 neu wedi hynny gwblhau Rhaglen Gadarnhau'r Fframwaith DAPP cyn cychwyn ar raglen YPGC.

5.3 Bydd gweithwyr cymdeithasol fel arfer yn gwneud rhaglen neu fodiwlau DAPP sy'n berthnasol i'w rôl gyfredol. Lle cyflogwyr yw penderfynu a oes unrhyw eithriadau i hyn.

5.4 Yn amodol ar 5.3 uchod, gall gweithwyr cymdeithasol ddilyn:

5.4.1 Y rhaglen YPGC dim ond os gall eu cyflogwr roi cyfleoedd iddynt wneud elfennau o'r rôl ymarfer profiadol mewn gwaith cymdeithasol a

fyddai'n ddigonol i adlewyrchu gofynion a chanlyniadau dysgu'r rhaglen;

5.4.2 Y rhaglen UYGC dim ond os ydynt, ar hyn o bryd, mewn rôl uwch ymarfer mewn gwaith cymdeithasol neu os gall eu cyflogwr roi cyfleoedd iddynt wneud elfennau o'r rôl ymarfer uwch gwaith cymdeithasol a fyddai'n ddigonol i adlewyrchu gofynion a chanlyniadau dysgu'r rhaglen.

5.4.3 Y rhaglen GCY dim ond os ydynt, ar hyn o bryd, mewn rôl gwaith cymdeithasol ymgynghorol neu os gall eu cyflogwr roi cyfleoedd iddynt wneud elfennau o'r rôl gwaith cymdeithasol ymgynghorol a fyddai'n ddigonol i adlewyrchu gofynion a chanlyniadau dysgu'r rhaglen.

5.5 Dim ond i lefydd ychwanegol ar y rhaglenni DAPP y mae gweithwyr cymdeithasol annibynnol (hunangyflogedig) yn gymwys i gael mynediad.

5.6 Dylai gweithwyr cymdeithasol annibynnol (hunangyflogedig) gysylltu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn uniongyrchol er mwyn cael mynediad ar le ychwanegol gyda chost cymorthdaliedig.

5.7 Bydd gofyn i gyflogwr pob gweithiwr cymdeithasol ddarparu cyfleoedd ymarfer ac adnoddau a fyddai'n ddigonol i adlewyrchu gofynion a chanlyniadau dysgu perthnasol y rhaglen.

5.8 Rhaid i gyflogwyr wneud cytundeb ffurfiol â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau lle ar y rhaglen DAPP i'w gweithwyr.

5.9 **PWYSIG** - Ni fydd ffioedd y cyflogwr na ffioedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael eu rhyddhau i'r gynghrair tan y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi derbyn cytundeb wedi'i arwyddo ar ran y cyflogwr. Rhaid i'r cytundeb gael ei ddychwelyd i Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn diwedd Mis Mehefin cyn dechrau'r Rhaglen DAPP.

6. Anghymhwystra

6.1 Ni fydd gweithwyr cymdeithasol nad ydynt yn gallu cael cyfleoedd ymarfer digonol i fodloni meini prawf a chanlyniadau dysgu'r rhaglen yn gymwys i gymryd rhan ar y rhaglenni DAPP.

7 Y Broses o ddyrannu a chyllido'r rhaglen DAPP

7.1 Bydd trefniadau rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr mewn perthynas â dyrannu a chyllid y fframwaith DAPP yn cael eu pennu gan gytundeb contract. Dosberthir cytundebau gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflogwyr i'w llofnodi.

7.2 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr ddarparu rhestr gywir o weithwyr cymdeithasol a fydd yn gwneud yr holl raglen neu elfennau ohoni. Mewn perthynas â phob gweithiwr cymdeithasol perthnasol, mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth fel a ganlyn:

7.2.1 enw'r unigolyn;

7.2.2 dynodiad yr unigolyn;

7.2.3 cyfeiriad e-bost yr unigolyn;

7.2.3 rhif cofrestru'r unigolyn;

7.2.4 y rhaglen a'r modiwlau a ddilynir; a

7.2.5 unrhyw fanylion eraill y gall Gofal Cymdeithasol Cymru fod eu hangen.

7.3 Rhaid i'r wybodaeth a ofynnir amdano uchod yn 7.2 gael ei anfon i Gofal Cymdeithasol Cymru ar y templed yn Atodiad 3.

7.4 <u>Dyrannu'r llefydd a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.</u>

7.4.1 Bydd y dull o ddyrannu'r 100 o lefydd a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2018 i 2019 fel a ganlyn:

- Dyrennir 88 o lefydd llawn ar y rhaglen i awdurdodau lleol. Bydd y dyraniad ar gyfer pob awdurdod lleol yn seiliedig ar faint gweithlu gwaith cymdeithasol pob awdurdod lleol (gweler atodiad 2 am ddadansoddiad o'r dyraniad).

- Dyrennir 12 o lefydd llawn ar y rhaglen i'r sector breifat / gwirfoddol / trydydd sector a'r llywodraeth (e.e. iechyd) er mwyn adlewyrchu maint y gweithlu hwn.

- Gellir dyrannu llefydd a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru nad ydynt yn cael eu defnyddio, i gyflogwr arall.

Nodwch - Gellir gweld mwyafswm y llefydd dyranedig a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru fesul sector yn Atodiad 2 (mae hyn yn cynnwys nifer y llefydd a ddyrennir fesul awdurdod lleol).

7.5 <u>Dyrannu llefydd ychwanegol</u>.

7.5.1 Sicrheir y bydd llefydd ychwanegol ar gael i gyflogwyr. Ariennir y llefydd hyn gan y cyflogwr drwy Gofal Cymdeithasol Cymru.

7.5.2 Gweler Atodiad 4 ar gyfer costau'r llefydd ychwanegol yn 2018 i 2019.

8. Dyddiadau a dulliau talu

8.1 Mae'n rhaid i gyflogwyr ddarparu'r cyllid ar gyfer llefydd DAPP ychwanegol i Gofal Cymdeithasol Cymru dim hwyrach na 28 diwrnod gwaith wedi iddyn dderbyn anfoneb oddi wrth Gofal Cymdeithasol Cymru.

9. Newid amgylchiadau

9.1 Mae'n rhaid i gyflogwyr hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar y cynllun DAPP. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

9.1.1 Newid yn nifer y llefydd dyranedig a gytunwyd;

9.1.2 Gweithwyr cymdeithasol yn gohirio eu hastudiaethau neu'n gadael y cwrs;

9.1.3 Atal yr astudiaethau dros dro;

9.1.4 Newid mewn statws cofrestru Gweithwyr Cymdeithasol fel tynnu oddi ar y gofrestr neu amodau ymarfer; a

9.1.5 Newidiadau i fanylion cyswllt cyflogwyr.

Mewn achosion lle mae astudiaethau'n cael eu terfynu neu os yw'r gweithiwr cymdeithasol yn gadael mae'n rhaid i'r cyflogwr hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn 15 diwrnod gwaith gan nodi'r rheswm am adael neu derfynu'r astudiaethau.

9.2 Cyfrifoldeb y cyflogwr yw hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru ar unwaith am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar ddyraniad neu gyllid DAPP o fewn 15 diwrnod i'r newid.

10. Adennill cyllid Gofal Cymdeithasol Cymru

10.1 Os yw gweithiwr cymdeithasol a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn gadael y rhaglen DAPP, bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru hawl i adennill cyfran o'r cyllid a dalwyd i'r rhaglenni oddi wrth gyflogwr y gweithiwr cymdeithasol hwnnw.

10.2 Bydd y cyfanswm y mae'n rhaid ei ad-dalu yn cael ei bennu ar sail faint o'r rhaglen neu'r modiwl y mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi'i gwblhau a'r rhesymau am ymadawiad y myfyriwr. Bydd penderfyniadau am adennill cyllid yn cael eu gwneud fesul achos. Mewn achosion lle mae adennill dyledion yn angenrheidiol, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi ei drefn adennill dyledion ar waith.

10.3 Os yw gweithiwr cymdeithasol yn gadael y cwrs, ond bo'r cyflogwr yn gallu cynnig gweddill y modiwlau sydd i'w gwneud i weithiwr cymdeithasol cymwys arall ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei hawlio gan y cyflogwr.

11. Deddf Diogelu Data

11.1 Heb leihau effaith telerau'r cytundeb, rhaid i bob parti sy'n darparu data personol (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Data) i Gofal Cymdeithasol Cymru ufuddhau'n briodol i'w holl ymrwymiadau o dan y Ddeddf hon sy'n codi yn sgil y Rhaglenni DAPP, y cynllun neu'r cytundeb.

12 Cwynion

12.1 Ymdrinnir â chwynion am y cynllun yn unol â Pholisi Cwynion Allanol Gofal Cymdeithasol Cymru drwy gysylltu â'n Swyddog Cwynion:

- e-bost at kate.salter@gofalcymdeithasol.cymru
- ffonio 029 2078 0636;

12.2 gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein polisi cwynion yn gofalcymdeithasol.cymru/amdanomni/ein-safonau

12.3 Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am raglenni DAPP at Cydgysylltydd y Rhaglen DAPP ym Mhrifysgol Caerdydd fel a ganlyn:

- E-bost: cpel@cardiff.ac.uk
- Ffonio: 029 2087 0801

13. Monitro ac adolygu

13.1 Mae'n rhaid i gyflogwyr gynhyrchu a darparu gwybodaeth gywir i Gofal Cymdeithasol Cymru am y broses o ddyrannu llefydd DAPP ac am weithwyr cymdeithasol sy'n dilyn y rhaglen.

13.2 Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn adolygu'r cynllun DAPP bob blwyddyn gan gynnal adolygiad ffurfiol i'w gyflawni yn 2020 (chwech mlynedd)

13.3 Bydd rhaid i gyflogwyr i ryddhau unrhyw adroddiadau neu wybodaeth i Gofal Cymdeithasol Cymru yn dilyn cais rhesymol posibl gan Gofal Cymdeithasol Cymru at ddibenion gweinyddu'r gwaith o ddyrannu ac ariannu'r cynllun DAPP.

13.4 Rhaid i gyflogwyr gytuno i ryddhau unrhyw wybodaeth am y cynllun DAPP i Gofal Cymdeithasol Cymru, ei archwilwyr neu ei asiantau o dro i dro yn dilyn cais posibl am y wybodaeth honno o bryd i'w gilydd.

Atodiad 1

Cynllun DAPP
Amserlen 2018/19

Blwyddyn	Mis	Gweithgarwch
2018 i 2019	Mehefin 2018	Anfon cytundebau ar gyfer 2018 i 2019 i gyflogwyr a dylid eu dychwelyd erbyn diwedd mis Mehefin 2018.
	Awst 2018	Rhyddhau'r cyllid ar gyfer y llefydd ychwanegol a ariennir gan gyflogwyr i Gofal Cymdeithasol Cymru.
	Medi 2018	Carfan newydd o weithwyr cymdeithasol i gychwyn rhaglen YPGC, UYGC a GCY.
	Hydref 2018	Rhandaliad cyntaf cyllid DAPP yn cael ei ryddhau i'r gynghrair.
	Mawrth 2019	Ail randaliad cyllid DAPP yn cael ei ryddhau i'r Gynghrair
		Y cynghrair i ddiweddaru'r templed 'Cynnydd gweithwyr cymdeithasol' ar gyfer pob carfan.

Atodiad 2
Dyrannu'r 100 o lefydd rhaglen DAPP a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cyflogwr Awdurdodau lleol	Nifer y gweithwyr cymdeithasol fesul awdurdod lleol	% gweithlu gwaith cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru	Dyrannu 100 o lefydd a ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru
Ynys Môn	74	1.80%	**2**
Blaenau Gwent	125	3.05%	**3**
Pen-y-bont ar Ogwr	225	5.48%	**5**
Caerffili	240	5.85%	**5**
Caerdydd	340	8.29%	**7**
Sir Gaerfyrddin	258	6.29%	**6**
Ceredigion	98	2.39%	**2**
Conwy	173	4.22%	**4**
Sir Ddinbych	120	2.92%	**3**
Sir y Fflint	174	4.24%	**4**
Gwynedd	179	4.36%	**4**
Merthyr Tudful	71	1.73%	**2**
Sir Fynwy	116	2.83%	**2**
Castell-nedd Port Talbot	227	5.53%	**5**
Casnewydd	222	5.41%	**5**
Sir Benfro	139	3.39%	**3**
Powys	147	3.58%	**3**
Rhondda Cynon Taf	332	8.09%	**7**
Abertawe	338	8.24%	**7**
Bro Morgannwg	150	3.66%	**3**
Torfaen	161	3.92%	**3**
Wrecsam	194	4.73%	**4**
Cyfanswm llefydd awdurdodau lleol	**4,103**	**100%**	**88**

Cyflogwyr Eraill (gan gynnwys y trydydd sector/y sector gwirfoddol/y llywodraeth)	**12**

Atodiad 3

Templed cynnydd gweithwyr cymdeithasol

(Nodwch y bydd hwn yn dempled electronig a fydd yn cynnwys cwymplenni).

Enw/ Name	Dynodiad/ Designation	Rhif cofrestru/ Registration no	e-bost/e-mail	Rhaglen/ Programme	Unedau/ modules	Hyd disgwyliedig/ Expected duration	Statws/ Status	Nodiadau/ Notes
Joe Bloggs	Uwch Ymarferydd	W/*******	Joe.bloggs@xxxx.xx.xx	UYGC	UYGC Rhaglen Llawn (60 credyd)	24 mis	Parhaus	(Unrhyw reswm dros ohirio, gadael)
Jane Bloggs	Gweithiwr Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion	W/*******	Jane.bloggs@xxxx.xx.xx	YPGC	Galluogi Eraill (10 credyd)	12 mis	Parhaus	

Atodiad 4
Prisiau
Llefydd Rhaglenni DAPP

Rhaglen	Llefydd a Ariennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru	Llefydd DAPP ychwanegol
Rhaglen llawn 60 credyd ar Lefel 7	£3,231.40	£1,510.94
Maes arbenigol	£1,615.70	£755.47
Modiwl 10 credyd	£538.56	£251.82